Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol 2022–23

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 4

**Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol** .......... 5

Dyletswyddau a chyfrifoldebau .......... 5

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol .......... 5

Aelodaeth .......... 6

**Trosolwg o waith diogelu 2022-2023** .......... 7

**Gwaddol tymor y Bwrdd blaenorol** .......... 8

**Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant** .......... 10

**Ein hymrwymiadau ar gyfer 2023-2026 – cydbwysedd rhwng parhad a newid** .......... 11

**Gwaith y Bwrdd Cenedlaethol yn ystod 2022-23** .......... 13

Dyletswydd Strategol 1 y Bwrdd Cenedlaethol: Darparu cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn effeithiol .......... 13

Dyletswydd Strategol 2 y Bwrdd Cenedlaethol: Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru .......... 14

Dyletswydd Strategol 3 y Bwrdd Cenedlaethol: Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (adran 132 (2)) .......... 22

# Cyflwyniad

Mae'n bleser gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-2023. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-daro â diwedd yr ail dymor o dair blynedd ac â dechrau trydydd tymor y Bwrdd (2023- 2026).

Mae'r Bwrdd yn falch o groesawu tri aelod newydd sydd wedi ymuno ag ef yn ddiweddar – un o'r trydydd sector, un o'r sector annibynnol ac un o'r sector statudol – sy'n cyfrannu egni newydd a safbwyntiau mwy amrywiol i waith y Bwrdd ar ddechrau ei drydydd tymor.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod pwysigrwydd cyfraniad yr aelodau y daeth eu tymor i ben ym mis Mai 23. Rhyngddynt, gwnaethant sicrhau elfen bwysig o barhad a chynnig llawer o ddoethineb ac arbenigedd perthnasol. Hoffai'r Bwrdd hefyd gydnabod pwysigrwydd y rôl a chwaraeodd Jane Randall fel y cyn-gadeirydd o safbwynt cryfhau'r Bwrdd fel endid ac o safbwynt sicrhau sylfaen gydweithredol ar gyfer y camau parhaus y mae'r Bwrdd yn eu cymryd i ymgysylltu â phartneriaid.

Yn y flwyddyn hon o bontio yn hanes y Bwrdd, mae'r Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchu gwaith a chyflawniadau'r Bwrdd yn ystod ei ail dymor, a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Wrth adolygu blwyddyn ddiogelu 2022-23, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi defnyddio ystod eang o ffynonellau gwybodaeth ac mae gwaith y 6 Bwrdd Diogelu Rhanbarthol wedi bod yn arbennig o bwysig. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol hefyd wedi gwneud defnydd helaeth o'i ymchwil annibynnol a gomisiynwyd, sy'n cynnwys Dadansoddiad Thematig Cenedlaethol o Adolygiadau Ymarfer Plant, a gwblhawyd yn ddiweddar. Mae hynny wedi ein helpu i nodi 3 neges allweddol o bwys strategol ar gyfer cryfhau ymarfer ac effeithiolrwydd diogelu yn y dyfodol ar draws Cymru.

### Negeseuon allweddol:

- **Lefel y galw, cymhlethdod a chapasiti** – Mae lefel yr angen a chymhlethdod yr anghenion y mae teuluoedd yn eu profi ar hyn o bryd yn fwy dwys nag erioed. Mae hynny'n parhau i greu galw newydd sylweddol am wasanaethau diogelu ataliol ac adferol yn y rhan fwyaf o ardaloedd Byrddau Rhanbarthol, os nad pob un ohonynt. Ar y llaw arall, ymddengys fod y gweithlu diogelu'n llai cydnerth nag erioed. Mae'r pwysau ychwanegol a chynyddol sy'n dod yn sgil y galwadau hyn yn arwain at heriau difrifol i bawb sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uwch, ac mae hynny'n gofyn am sylw, adnoddau a chefnogaeth gyson ar y cyd ar y lefel uchaf.

- **Deall effaith ac effeithiolrwydd diogelu** – Ceir consensws cyffredinol ynghylch yr angen i gytuno ar ddull a rennir yn eang o fesur a chofnodi effaith ac effeithiolrwydd ymarfer diogelu ar draws Cymru gyfan. Mae'r Bwrdd yn annog pob asiantaeth berthnasol ym mhob rhanbarth i gymryd y cam nesaf, sef treialu prototeip o Fframwaith Perfformiad Diogelu Cymru Gyfan yn ystod 2024-25.

- Mae **diwylliant o ddysgu ym maes diogelu** yn parhau'n ganolog i arfer gorau yng Nghymru. Mae dysgu'n rhan annatod o broses Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant yng Nghymru, a dylai'r broses barhau i lywio dysgu cenedlaethol. Er hynny, mae'n hanfodol gwella effeithiolrwydd ac effaith dysgu. I wneud hynny, rydym yn annog pawb i groesawu'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o'r cyhoeddiad diweddar, sef Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth: Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru (Hydref 2023), a chytuno ar raglen weithredu dryloyw y mae modd ei chyflawni.

# Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

## Dyletswyddau a chyfrifoldebau

Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol dair prif ddyletswydd a gaiff eu hegluro yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

1. ***Rhoi cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol***
2. **Cyflwyno adroddiadau am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd** *trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru*
3. **Gwneud argymhellion** *i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (adran 132 (2)).*

At hynny, caiff wyth o gyfrifoldebau p enodol y Bwrdd Cenedlaethol eu hegluro yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, sef y Canllawiau ynghylch Diogelu, dan Ran 7 y Ddeddf. Dyma'r cyfrifoldebau:

1. [Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn] **gweithio ochr yn ochr â** Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant i sicrhau gwelliannau cyson i bolisïau ac arferion diogelu ledled Cymru (par. 246)
2. Bydd [y Bwrdd Cenedlaethol] yn **ymgysylltu â chadeiryddion** y Byrddau Diogelu, ac arolygiaethau perthnasol... o leiaf ddwywaith y flwyddyn (par. 258)
3. Bydd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn **cael y wybodaeth ddiweddaraf am agweddau polisi a thystiolaeth** ar ddiogelu ac amddiffyn mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt er mwyn dysgu o'r rheini a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru (par. 261)
4. Os bydd...yn nodi **thema o bryder**... gallai'r Bwrdd Cenedlaethol argymell i Weinidogion Cymru y dylai'r mater gael ei drosglwyddo i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru neu'r arolygiaeth berthnasol (par. 263)
5. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio mecanweithiau i **ymgysylltu'n rheolaidd â phob math o grwpiau cyfeirio**, ymarferwyr ac unigolion arbenigol (par. 264)
6. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **cyhoeddi ei adroddiadau blynyddol ei hun** gan gynnwys **unrhyw waith arfaethedig**. Bydd hefyd yn cynnal digwyddiad neu ddigwyddiadau ymgysylltu blynyddol (par. 265)
7. Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol ddyletswydd benodol o dan adran 133(2)(d) o'r Ddeddf i "**ymgynghori â'r** rhai y gallai trefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru effeithio arnynt". Bydd yn defnyddio'r ddyletswydd honno i wella ei ddealltwriaeth ac ymestyn ei brofiad o ddiogelu ac amddiffyn yng Nghymru (par. 266)
8. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **ystyried yr hyn a ddysgwyd o weithgareddau 'ymgysylltu â defnyddwyr'** y Byrddau Diogelu (par. 266).

**Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

Caiff y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol ei disgrifio'n benodol yn Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015.

## Aelodau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Ebrill 2022 – Mawrth 2023




Tony Young
(Cadeirydd)



Lin Slater
(Is-gadeirydd)



Tessa Hodgson



Carys James



Des Mannion



Artie Meakin



Jane Randall
(Cadeirydd tan mis Mai 2023)

** Cafodd tymor 2019 – 2022 ei ymestyn am flwyddyn oherwydd y pandemig COVID cenedlaethol, a daeth y tymor i ben ym mis Mai 23 yn hytrach na mis Mai 22. Ymunodd dau o'n tri aelod newydd ar gyfer 23-26 (sef Carys James ac Artie Meakin) â'r Bwrdd ym mis Tachwedd, sef tua diwedd blwyddyn 22-23 i bob pwrpas, a daeth Des Mannion yn aelod ym mis Mai 23.*

# Trosolwg o waith diogelu 2022-2023

Rhaid i bob trosolwg o'r dirwedd o ran diogelu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf nodi pryder am effaith barhaus y pandemig COVID-19 ar gapasiti a chydnerthedd, yn enwedig ar draws yr holl weithlu diogelu. Mae pob un o'r 6 Adroddiad Blynyddol Rhanbarthol yn nodi bod hynny'n broblem allweddol sy'n parhau. Rydym yn gwybod, o arsylwi'r drafodaeth yn ystod ein gwaith ymgysylltu uniongyrchol rheolaidd â phob un o'r 6 Bwrdd Rhanbarthol, bod effaith andwyol yr epidemig yn parhau i waethygu'r heriau a oedd yn bodoli o'r blaen o ran recriwtio a chadw gweithwyr, ar draws y sector. O gyfuno hynny â dwy broblem arall, sef argyfwng costau byw sy'n parhau ac sydd yn ei dro'n tanseilio cydnerthedd teuluoedd ymhellach, mae'r galwadau ar weithlu sy'n brin o gapasiti ac arbenigedd yn parhau i dyfu. Nid yw gwybod hynny'n fawr o gysur i'r Byrddau Rhanbarthol, oherwydd mae'n cynyddu'r rheidrwydd nid yn unig i sicrhau bod gwaith diogelu'n gryfach, yn well ac yn fwy effeithiol ond hefyd bod pob plentyn ac oedolyn yn parhau'n ddiogel bob amser; mae asiantaethau'n gwybod bod yn rhaid iddynt wneud mwy o waith â llai o adnoddau, a gwneud y gwaith hwnnw'n well, sy'n her ddiogelu na fyddai fawr o neb yn chwennych mynd i'r afael â hi.

Wrth baratoi'r adroddiad hwn ac adolygu effeithiolrwydd diogelu ar draws Cymru yn gyffredinol, hoffai'r Bwrdd dynnu sylw at y graddau y mae pob un o'r rhanbarthau, er gwaetha'r pwysau hwn, yn gallu dangos tystiolaeth o'u hegni a'u hymdrech wrth geisio mynd i'r afael â'r heriau a gwella effeithiolrwydd.

Mae'r dystiolaeth a rannwyd â'r Bwrdd Cenedlaethol am y camau a gymerir gan y Byrddau Rhanbarthol yn drawiadol ac yn galonogol. Mae eu rhaglenni gwaith cyffredinol; eu mentrau datblygu er mwyn ymateb i fygythiadau newydd; a'r cymorth, yr hyfforddiant a'r adnoddau a neilltuir i ddysgu a gwella i gyd yn dangos agwedd benderfynol ddiflino er mwyn amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth.

Mae'n amlwg bod yna wendidau o hyd, y mae rhai ohonynt yn fawr, ac mae'n anodd gweld sut y gall pethau fyth fod fel arall o ystyried graddfa camdriniaeth ac ystyried y gwahanol fathau o gamdriniaeth sy'n esblygu'n barhaus. Os oes gwendidau'n amlwg gwelir bod Byrddau, asiantaethau a gweithwyr proffesiynol yn gweithredu i fynd i'r afael â nhw, ac mae'n briodol disgwyl iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, fel sy'n amlwg yng ngwaith partneriaid academaidd y Bwrdd wrth iddynt gynnal Dadansoddiad Thematig 2023 o Adolygiadau Ymarfer Plant, mae'r ymdrech ddi-ball hon gan weithwyr proffesiynol a'r Byrddau Rhanbarthol yn gofyn am sylw cyson ar y cyd ar y lefel uchaf ym mhob asiantaeth gyfansoddol berthnasol ac ym mhob un o gyrff y Llywodraeth.

# Gwaddol tymor y Bwrdd blaenorol

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn dal yn nodwedd eithaf newydd yn y dirwedd o ran diogelu, ers i'r Bwrdd cyntaf gael ei sefydlu yn 2016. Mae wedi cymryd dau dymor iddo ymgyfarwyddo â'i rôl a diffinio pwy ydyw ochr yn ochr â chyfuniad cymhleth o asiantaethau proffesiynol llawn-amser sy'n bodoli ers amser.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi ymrwymo i adeiladu ar waddol a chyflawniadau pwysig tymor y Bwrdd blaenorol. O'r manteision allweddol a sicrhawyd gan y Bwrdd blaenorol, bydd **3 Ymrwymiad Craidd** yn dal i hawlio capasiti a ffocws y Bwrdd wrth symud ymlaen.

## Cynnal cydberthnasau cydweithredol â Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Mae adborth ein cydweithwyr yn y rhanbarthau i arolwg yn cadarnhau ein cred bod y Bwrdd blaenorol wedi llwyddo i sefydlu cydberthnasau cydweithredol a chynhyrchiol â phob un o'r 6 Bwrdd Rhanbarthol. Mae'r cydberthnasau hynny wedi aeddfedu i feithrin lefel ddigonol o ymddiriedaeth i alluogi her annibynnol iach a gwerthfawrogiad beirniadol. At hynny, mae cryn dipyn o gyd-gynhyrchu yn un o nodweddion ein cydberthynas. Er enghraifft, mae cydweithwyr o bob un o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Cenedlaethol yn ystod y 12-18 mis diwethaf i gynorthwyo i ddatblygu Fframwaith Perfformiad Diogelu Cenedlaethol (gweler isod).

I bob pwrpas, felly, drwy ei waith gyda chydweithwyr yn y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn awr yn gallu ymgysylltu'n adeiladol â phob asiantaeth statudol ac â chyfuniad amrywiol o asiantaethau yn y sector annibynnol a'r trydydd sector ar lefel uwch, ar draws Cymru gyfan. Mae hynny'n ffynhonnell o wybodaeth dda am effeithiolrwydd polisi ac ymarfer ar draws Cymru ac am broblemau diogelu sy'n dod i'r amlwg.

Yn bwysicach na hynny, mae'n galluogi'r Bwrdd i weithio mewn partneriaeth â'r rhanbarthau wrth fynd ar drywydd mentrau ac atebion newydd.

## Cryfhau cydberthnasau â rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol

Yn ystod ei ail dymor, buddsoddodd y Bwrdd lawer o amser ac ymdrech mewn meithrin cydberthnasau 'sefydlog' ag Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi ac Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Estyn, yr Uned Atal Trais, Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru, Rhwydwaith Diogelu'r Pum Gwlad a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ymhlith eraill. Mae adborth cydweithwyr yn rhai o'r asiantaethau hyn i arolwg hefyd yn cadarnhau manteision cynnal partneriaethau clòs a hybu sgwrs a thrafodaeth reolaidd ar lefel genedlaethol ac ar lefel y DU ac Iwerddon ynghylch materion sy'n ymwneud â pholisi ac ymarfer ym maes diogelu.

## Symud y rhaglen "Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru" yn ei blaen

Y rhaglen waith hon fu prif sbardun y Bwrdd yn ystod y rhan fwyaf o'i ail dymor ac, yn wahanol i'w weithgarwch rhwydweithio sy'n fwy amhendant, mae'r rhaglen wedi canolbwyntio'n fwy dadansoddol ar archwilio cwestiynau anodd sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ar lawr gwlad.

Mae'n rhaglen sydd â sylfaen eang, a bwriedir iddi ddeall effeithiolrwydd diogelu ar draws Cymru, dangos tystiolaeth ohono, ei broffilio a hybu dealltwriaeth gyflawn ohono. I'r perwyl hwnnw, mae'r rhaglen yn ymwneud â thri phrif faes:

» Gwerthuso ymarfer ac effeithiolrwydd proffesiynol.

» Deall perfformiad y system gyfan.

» Cofnodi profiad go iawn y sawl y mae polisi ac ymarfer diogelu yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, a dysgu o'r profiad go iawn hwnnw.

Mae ein partner academaidd a gomisiynwyd, sef yr Athro Michelle McManus a'i chydweithiwr Emma Ball (o Brifysgol John Moores Lerpwl gynt, ond bellach o Brifysgol Metropolitan Manceinion) wedi bod yn ganolog i'r rhaglen hon ac wedi cynhyrchu cyfres o adroddiadau a gomisiynwyd – yn gyntaf ynghylch mapio'r holl drefniadau 'drws ffrynt' amlasiantaeth sydd ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru a gwerthuso'r modd y maent wedi'u trefnu (*Gwerthusiad o Drefniadau Diogelu Gweithredol Amlasiantaeth Integredig yng Nghymru, Awst 2020*[1]); ac yn ail gwerthusiad o'u heffeithiolrwydd – gan ateb y cwestiwn 'beth sy'n gweithio yn dda' (*Llywio Dyfodol Trefniadau Diogelu Amlasiantaeth yng Nghymru: Sut beth yw da? Tachwedd 2022*[2]). Mae'r adroddiadau allweddol hyn ar gyfer y Bwrdd Cenedlaethol wedi gosod y sylfaen ar gyfer gwaith y Bwrdd yn awr ac yn y dyfodol yn ystod ei drydydd tymor.

**1.** safeguardingboard.wales/wp-content/uploads/sites/8/2021/01/Final-report-Phase-1-January-2020.pdf

**2.** safeguardingboard.wales/2022/11/15/shaping-the-future-of-safeguarding-in-wales-project-findings-from-liverpool-john-moores-university

# Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant

## Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth: Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru. Hydref 2023

Fel comisiynwyr yr adroddiad hwn, mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn falch o allu rhannu ei ddadansoddiad a'i ganfyddiadau fel sylfaen ar gyfer gwaith dysgu cenedlaethol a rennir ac ar gyfer trafodaeth adeiladol ynghylch y ffordd orau o gryfhau effeithiolrwydd diogelu i blant sy'n wynebu risg ledled Cymru, ac er mwyn lleihau ymhellach y tebygolrwydd y gallai niwed sylweddol ddigwydd yn y dyfodol. Rydym hefyd o'r farn bod y gwaith dysgu y mae'n ei nodi yn ddysgu y mae'n hawdd iawn ei drosglwyddo i wledydd eraill y DU.

Er i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi'n ddiweddar iawn a bod y rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i gyflawni y tu allan i'r cyfnod y mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn ymdrin ag ef, sef 2022-23, mae'n briodol tynnu sylw ato yma am y rheswm syml ei fod yn cwblhau cyfres bwysig o adroddiadau a ddechreuodd gyda'r rhaglen `Llywio'r Dyfodol'. Yn bwysicach na hynny, mae'r adroddiad yn amlygu negeseuon allweddol y mae angen i bob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol ym maes diogelu eu hystyried yn fuan. Felly, mae 11 argymhelliad yr adroddiad wedi'u nodi ar ddiwedd yr Adroddiad Blynyddol hwn er mwyn iddynt gael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad yn egluro canfyddiadau adolygiad dadansoddol o 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd gan y 6 Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yng Nghymru rhwng 2013 a 2021, ac mae'n nodi nifer o feysydd lle mae'n rhaid cyflwyno newidiadau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd niwed yn digwydd yn y dyfodol, at ddiben gwella ymarfer a chryfhau systemau diogelu.

Yn yr un modd, nododd yr awduron lawer o dystiolaeth o ymarfer diogelu da ac ardderchog sy'n cael ei gyflawni ledled Cymru i amddiffyn a diogelu plant. Mae'r adroddiad yn cymeradwyo effeithiolrwydd y Model ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant, sef model a ddatblygwyd yng Nghymru ac sydd wedi dod yn rhan annatod o waith y 6 Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant ers iddo gael ei gyflwyno (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant).

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn dadlau bod tystiolaeth ar lefel y Byrddau o'r angen i gryfhau'r cylch 'cynllunio camau gweithredu-adolygu', ar ôl cwblhau digwyddiadau dysgu ac adroddiadau terfynol, er mwyn sicrhau bod gwaith dysgu'n parhau dros y tymor hwy.

At ei gilydd, mae pob un o'r meysydd ar gyfer gwella'n gysylltiedig â chryfhau cydberchnogaeth ar lefel systemau diogelu gweithredol; cydweithio amlasiantaeth; rhannu gwybodaeth; bod â'r hyder i herio rhieni ac eraill; a'r angen i fynd i'r afael â chapasiti annigonol yn y gweithlu. Nid oes yr un o'r ffactorau hyn yn annibynnol ar ei gilydd nac yn cynnig atebion syml, ac mae pob un ohonynt yn gofyn am ymrwymiad unol ar y cyd ar bob lefel er mwyn lleihau risg ymhellach a sicrhau bod arfer da'n cael ei gynnal dros y tymor hir.

Gellir gweld yr adroddiad yma – **bwrdddiogelu.cymru/2023/10/02/risk-response-and-review-multi-agency-safeguarding/**

# Ein hymrwymiadau ar gyfer 2023-2026 – cydbwysedd rhwng parhad a newid

O ystyried bod y Bwrdd Cenedlaethol ar drothwy trydydd tymor a bod ganddo aelodaeth 'newydd', roedd yn bwysig – o'r cychwyn cyntaf – peidio â rhagdybio blaenoriaethau'r dyfodol, a galluogi aelodau hen a newydd i ymwneud ag ailbennu blaenoriaethau, er y byddai hynny'n seiliedig ar ein dyletswyddau statudol blaenorol fel Bwrdd. Felly, gwnaethom ddefnyddio'r cyfnod rhwng mis Mai a mis Medi 2023 i gymryd rhan mewn adolygiad a sgwrs gyffredin ynghylch rhaglen waith flaenorol a phresennol y Bwrdd Cenedlaethol.

Roedd hynny'n cynnwys gweithdy undydd wedi'i hwyluso (gan Wendy Rose, Uwch-gymrawd Ymchwil, Y Brifysgol Agored) ym mis Gorffennaf 23, a roddodd gyfle i'r aelodau adolygu cyflawniadau'r Bwrdd mor belled, rhannu safbwyntiau, a nodi a thrafod beth sy'n bwysig neu beth ddylai fod yn bwysig i'r Bwrdd yn y dyfodol. At hynny, roedd y digwyddiad yn gyfle i ymwneud ag Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, a chydweithwyr allweddol eraill sy'n gweithio ar yr agenda genedlaethol.

Yn gryno, mae prif gasgliadau'r broses fyfyrio honno wedi nodi'r ymrwymiadau allweddol canlynol wrth symud ymlaen:

### Yn ystod y tymor o 3 blynedd ac o fis Gorffennaf 2023 ymlaen, bydd y Bwrdd Cenedlaethol...

» **Yn sicrhau parhad** gwaith Bwrdd 2019-2023*, yn enwedig o ran cynnal diwylliant o gydweithio ac o ran adeiladu ar weithgarwch cynhyrchiol cyffredin gyda'r Byrddau Rhanbarthol.

» **Yn sicrhau parhad** o ran meithrin ac ymestyn sgwrs â phartneriaid allweddol cenedlaethol a phartneriaid allweddol ledled y DU ym maes diogelu.

» **Yn sicrhau parhad yn rôl y Bwrdd Cenedlaethol o ran 'dysgu cenedlaethol'** – drwy

– Barhau i sicrhau bod adroddiad ***thematig cenedlaethol annibynnol*** yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol, sy'n seiliedig ar Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant (am yn ail bob blwyddyn) a gyhoeddwyd gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.

– Cynnal seminar / cynhadledd ddiogelu flynyddol i rannu gwaith dysgu cenedlaethol o Adolygiadau Ymarfer Oedolion / Adolygiadau Ymarfer Plant ac adolygiadau annibynnol eraill.

» **Yn cyhoeddi adroddiad Dadansoddiad Thematig Cenedlaethol 2023 o Adolygiadau Ymarfer Plant** (2 Hydref 2023).

» **Yn parhau â'r rhaglen waith Llywio'r Dyfodol drwy symud ymlaen i gyflwyno Fframwaith Perfformiad Diogelu Cenedlaethol a hybu cydgyfrifoldeb.**

» **Yn cadarnhau manylion terfynol Partneriaeth Ddatblygu gyda Phrifysgol Metropolitan Manceinion** – er mwyn galluogi gwaith uniongyrchol gyda Byrddau Rhanbarthol, darparu capasiti ar gyfer y Bwrdd Cenedlaethol a chefnogi gweithredu fel y nodir uchod.

» **Yn goruchwylio camau gweithredu sy'n ymwneud â'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.** Byddwn yn sefydlu methodoleg a threfn adrodd effeithiol er mwyn galluogi'r Bwrdd Cenedlaethol i gyflawni goruchwyliaeth gynghorol annibynnol mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion ar gyfer llywodraeth, a wnaed gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

» **Yn ad-drefnu'r ffordd y mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn gweithio** – a fydd yn deillio o'n hadolygiad diwrnod cyfan ym mis Gorffennaf. Cytunwyd bod angen mynd i'r afael o'r newydd â'r meysydd canlynol: –

- **Datblygu Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer y Bwrdd Cenedlaethol, sy'n cynnwys adolygu ac ad-drefnu gwefan y Bwrdd** – ceir consensws bod hwn yn faes lle'r ydym wedi bod yn llai gweithgar neu'n llai llwyddiannus. Yn 2023/4, rydym yn bwriadu ailddatblygu ein ffordd o weithredu er mwyn hyrwyddo gwefan sy'n fwy allblyg, cynhwysol a chyfoes ac sy'n ceisio ennyn diddordeb cynulleidfa ehangach.
- **Yn adolygu ac yn ad-drefnu fformat a ffocws Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol** – er mwyn denu mwy o ddarllenwyr. Byddwn yn symleiddio'r fformat yn sylweddol, yn canolbwyntio ar negeseuon allweddol ac yn cymell adborth mwy gweithredol.
- **Yn adolygu ac yn ad-drefnu fformat a ffocws Cynllun Gwaith Blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol** – yng nghyswllt y cynllun hwn hefyd, byddwn yn sicrhau ei fod yn parhau'n gryno ac yn syml a'i fod yn canolbwyntio ar ffrydiau gwaith allweddol. Gweler **bwrdddiogelu.cymru/work-plan**

# Gwaith y Bwrdd Cenedlaethol yn ystod 2022-23

## Dyletswydd Strategol 1 y Bwrdd Cenedlaethol:

**Darparu cymorth a chyngor** i Fyrddau Diogelu, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn effeithiol.

Mae pob un o aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn gysylltiedig â Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, a mynychodd pob aelod gyfarfodydd a digwyddiadau datblygu eu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol perthnasol yn ystod y flwyddyn. O gyfuno'r drefn honno â'r canlynol, mae'n ffynhonnell allweddol o wybodaeth am themâu sy'n dod i'r amlwg ac am effeithiolrwydd cyffredinol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol:

- Sicrhau cyfarfodydd bob deufis rhwng cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cenedlaethol
- Ymgysylltu a chyfarfod yn rheolaidd â Rheolwyr Busnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn gan y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio llawer o wybodaeth am effeithiolrwydd, a gafwyd drwy bresenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd pob un o'r Byrddau Rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn. Yn rhan o adolygiad blynyddol y Bwrdd o effeithiolrwydd diogelu (yn unol â'r ddyletswydd strategol uchod), mae pob aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol yn cynnal adolygiad o'r Bwrdd a ddyrannwyd iddo/iddi, gan ddefnyddio Adroddiad Blynyddol y Bwrdd hwnnw. Mae'r adolygiadau manwl a gynhaliwyd gan aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yng nghyswllt pob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn ystod 2022-23 wedi'u nodi yn Atodiad III yr adroddiad hwn.

# Dyletswydd Strategol 2 y Bwrdd Cenedlaethol: Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru.

## "Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru" – Rhaglen Bartneriaeth rhwng y Bwrdd Cenedlaethol a'r Athro Michelle McManus o Brifysgol Metropolitan Manceinion

Drwy gydol y flwyddyn mae gwaith cyson sy'n deillio o'r rhaglen "Llywio'r Dyfodol", fel y nodwyd yn flaenorol, wedi parhau ac wedi golygu archwiliad dwys, treiddgar a chynhwysfawr o ddiogelu ar draws Cymru, a oedd yn ymdrin â'r system gyfan. Arweiniodd hynny at y broses ehangaf erioed hyd yma yng Nghymru o gasglu tystiolaeth, a oedd yn cynnwys 138 o gyfweliadau â gweithwyr proffesiynol o bob asiantaeth, ac yn olaf adolygiad manwl o 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant.


Mae ehangder a phwysigrwydd y rhaglen allweddol hon, sydd wedi sbarduno gwaith y Bwrdd, wedi'u crynhoi i raddau helaeth gan yr Athro McManus ac Emma Ball, ac mae darnau allweddol o'r crynodeb wedi'u hatgynhyrchu isod.

Dechreuodd y rhaglen hon yn 2020 gydag astudiaeth i archwilio trefniadau gweithredol amlasiantaeth integredig ar draws pob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol.

Arweiniodd hynny at werthusiad cenedlaethol ar raddfa fawr er mwyn penderfynu 'sut beth yw da' ym maes diogelu amlasiantaeth. Roedd tair ffrwd waith yn perthyn i'r astudiaeth honno: archwilio safbwyntiau ymarferwyr, deall profiadau a safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth, a chael gwybodaeth gan dimau rheoli perfformiad, ochr yn ochr â dadansoddiad o'r metrigau diogelu a gesglir gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

## 1. Gwerthusiad Llywio Dyfodol Trefniadau Diogelu Amlasiantaeth


Roedd ffrydiau gwaith y gwerthusiad ar gyfer Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru yn cynnwys:




Ar ôl cwblhau'r gwerthusiad ar gyfer Llywio'r Dyfodol, cafodd dau allbwn prosiect ymchwil eu datblygu mewn partneriaeth â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol:

- Y Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu: Y 12 Elfen
- Y Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant.

Cafodd darn ar wahân o waith ei gomisiynu gan y Bwrdd Cenedlaethol ym mis Chwefror 2023 er mwyn cynnal Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant ar draws Cymru. Nododd yr adroddiad hwnnw nifer o feysydd lle mae'n rhaid newid er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd niwed yn digwydd yn y dyfodol, gwella ymarfer a chryfhau systemau diogelu.





***Ffigur 1: Amlinelliad o'r prosiectau a gwblhawyd***

Mae argymhellion wedi'u gwneud i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r gweithlu diogelu ehangach, y mae angen eu troi'n weithredu ystyrlon. Ystyrir bod y Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu: Y 12 Elfen yn adnodd allweddol, ochr yn ochr â'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol, o safbwynt ei gwneud yn bosibl i drefniadau diogelu roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd eu hymarfer diogelu amlasiantaeth.

Caiff rhagor o wybodaeth gryno am bob un o'r astudiaethau yn Ffigur 1 ei nodi isod.


Cafodd pum Adroddiad Gwerthuso eu cwblhau yn rhan o'r rhaglen Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru:




Ochr yn ochr â'r prif argymhellion, roedd prif allbynnau gwerthusiad Llywio Dyfodol Diogelu yn cynnwys:

## 2. Y Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu: Y 12 Elfen[3]

Mae'r Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu: Y 12 Elfen yn dangos y modd y gweithredir *'Mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb'*. Mae'r model yn cynnig arweiniad ar gyfer Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Partneriaethau Diogelu ac awdurdodau lleol i ddangos y mesurau a gaiff eu mabwysiadu'n lleol er mwyn hwyluso trefniadau diogelu amlasiantaeth, eu cydlynu a dangos tystiolaeth o'r modd y cânt eu rhoi ar waith.




***Ffigur 2: Y Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu: Y 12 Elfen***

Adeg ysgrifennu'r adroddiad, bydd y gwaith sy'n parhau ar ddatblygu'r Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu: Y 12 Elfen yn cynnwys Fframwaith Hunanasesu Llywodraethiant, er mwyn galluogi'r rhanbarthau sy'n cymryd rhan i asesu a dangos y graddau y maent yn bodloni'r meini prawf cyffredinol a nodir yng nghyswllt pob un o'r 12 elfen.

Un allbwn allweddol ychwanegol o'r gwaith a oedd yn ymwneud â Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru oedd:

**3.** Mae adroddiad ar wahân ar gael

## 3. 3. Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol

Mae'r Fframwaith Perfformiad yn gofyn i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ateb cwestiynau allweddol am 5 prif faes gan ddefnyddio metrigau ansoddol a naratif ansoddol. Diben hynny yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol bod eu hymarfer diogelu'n effeithiol o safbwynt cyflawni amcanion y Bwrdd a bod modd dangos tystiolaeth o hynny. Cafodd y Fframwaith Perfformiad ei ddatblygu i gynnwys 5 elfen/maes y gall Byrddau Diogelu Rhanbarthol ddarparu metrigau ar eu cyfer i ddangos perfformiad.

Mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi cytuno ar fetrigau craidd, ac mae mwy o wybodaeth yn yr Adroddiad Briffio ynghylch y Prototeip sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol.

**1. Y broses ddiogelu**

- Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod trefniadau'n effeithiol o safbwynt **adnabod** pryderon am ddiogelu ac o safbwynt **ymateb** iddynt?
- Beth yw **canlyniadau** prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol?

**2. Gweithgarwch a data amlasiantaeth**

- Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod y **protocolau sy'n bodoli eisoes rhwng asiantaethau'n gweithio yn effeithiol**, pan nodir bod unigolion yn wynebu risg o ddioddef niwed?
- Pa **ddata** sy'n cael ei gasglu am hynny, sut y caiff ei rannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod?

**3. Llinynnau thematig**

- Pa **brif ffynonellau thematig niwed**, sy'n gofyn am ymateb diogelu yn lleol, y ceir tystiolaeth ohonynt yn nata'r Bwrdd?
- Pa **gamau** sydd wedi'u nodi er mwyn ymateb i'r dystiolaeth thematig honno?

**4. Adborth defnyddwyr gwasanaeth**

- Beth yw **amcanion** y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol o **safbwynt casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth** am weithgarwch diogelu uniongyrchol?
- Beth y mae'r **metrigau** sy'n cofnodi'r adborth hwnnw'n ei ddweud wrth y Bwrdd?
- Sut y mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r dystiolaeth honno a beth yw'r amserlen ar gyfer gwneud hynny?

**5. Gwybodaeth am y gweithlu**

- Beth a wyddys am **broffil** y gweithlu diogelu?
- Sut y mae **trefniadau recriwtio** a **chadw** yn effeithio ar y broses o gyflawni dyletswyddau diogelu?
- I ba raddau y caiff **hyfforddiant amlasiantaeth** ei ddarparu i'r gweithlu diogelu ac i ba raddau y mae'r gweithlu diogelu yn manteisio arno?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod asiantaethau'n deall anghenion y gweithlu o ran **llesiant a chymorth** ac yn ymateb iddynt?

## 4. Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant

Cafodd Adroddiad Briffio ac Adroddiad Llawn eu llunio ar ôl cwblhau'r gwaith hwn a fu'n archwilio 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd gan y chwe Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant yng Nghymru rhwng 2013 a 2021. Cynhaliodd y tîm ymchwil ddadansoddiadau disgrifiadol, casgliadol a thematig o'r 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant. Nododd y dadansoddiadau dueddiadau cyffredin o ran ffactorau risg ac o ran yr ymateb diogelu amlasiantaeth ar draws y grŵp hwn o adolygiadau. At hynny, gwnaethom ddadansoddi ansawdd a chysondeb yr adolygiadau eu hunain. Gwnaethom geisio amlygu'r heriau, hybu ymarfer gwell a dileu rhwystrau i waith diogelu effeithiol ar draws y rhwydwaith diogelu proffesiynol cyfan. Roedd prif feysydd ffocws yr adroddiad yn cynnwys:

### i. Risg: Nodweddion Plant Blaen a Theuluoedd mewn Adolygiadau Ymarfer Plant

Mae'n cynnwys gwybodaeth ddisgrifiadol i adnabod tueddiadau o ran nodweddion plant a theuluoedd a dangosyddion risg.


### ii. Ymateb: Ymwneud Sefydliadau ac Asiantaethau cyn y Digwyddiad Blaen

Mae'n cynnwys gwybodaeth ddisgrifiadol i nodi pa sefydliadau ac asiantaethau a oedd yn ymwybodol o'r plentyn a/neu aelodau'r teulu cyn y digwyddiad blaen. Mae'r cam hwn hefyd yn cynnwys y dadansoddiad thematig o'r dysgu a'r ymateb amlasiantaeth yng nghyswllt yr Adolygiad Ymarfer Plant. Nodwyd pedair thema allweddol a oedd yn cynnwys:

1. Heriau i Ymarferwyr ac Asiantaethau
2. Rhwystrau i Strwythurau a Phrosesau
3. Dylanwadau Ehangach ar Ymarfer a Phrosesau
4. Arfer Da a Nodwyd

### iii. Adolygu: Ansawdd Adolygiadau Ymarfer Plant

O gofio mai nod y wybodaeth sydd yn yr Adolygiadau Ymarfer Plant yw bod yn hwylusydd allweddol i sbarduno dysgu, newid a gweithredu, mae'n bwysig archwilio adroddiadau'r Adolygiadau eu hunain o ran eu strwythur, eu cynnwys a'r graddau y maent yn glynu wrth y prosesau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant.




***Model o Ansawdd a Chysondeb Adolygiadau Ymarfer Plant***

**Mae prif argymhellion y dadansoddiad o'r Adolygiadau Ymarfer Plant** wedi'u nodi ac wedi'u hanelu at:

- **Ymarferwyr a Rheolwyr**
- **Awdurdodau a Byrddau**
- **Llunwyr Polisi**

At ei gilydd, mae'r meysydd ar gyfer gwella'n gysylltiedig â chryfhau cydberchnogaeth ar lefel systemau diogelu gweithredol; cydweithio amlasiantaeth; rhannu gwybodaeth; bod â'r hyder i herio rhieni ac eraill; a'r angen i fynd i'r afael â chapasiti annigonol yn y gweithlu.

Nid oes yr un o'r ffactorau hyn yn annibynnol ar ei gilydd nac yn cynnig atebion syml, ac mae pob un ohonynt yn gofyn am ymrwymiad unol ar y cyd ar bob lefel er mwyn lleihau risg ymhellach a sicrhau bod arfer da'n cael ei gynnal dros y tymor hir.

* Adolygiad Thematig Cenedlaethol o 33 o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd yng Nghymru: Adroddiad gan yr Athro Michelle McManus ac Emma Ball (Cydymaith Ymchwil) o Brifysgol Metropolitan Manceinion a'r Athro Louise Almond (Prifysgol Lerpwl).

## Model ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Parhaodd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol i gyfrannu'n weithredol i gynigion Llywodraeth Cymru ynghylch Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, yng nghyswllt trafodaethau am lywodraethu ac am ddatblygu arweiniad i hybu gwaith ymgysylltu ystyrlon â theuluoedd a chymunedau.

Cyflwynodd y Bwrdd ymdriniaeth dechnegol fanwl ar wahân mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori cenedlaethol a ddaeth i ben ar 9 Mehefin 2023. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r ymgynghoriad ar 29 Medi 2023, ond nid oedd y Bwrdd eto wedi ystyried yr ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Mae'n bosibl bod yr oedi sydd wedi digwydd dro ar ôl tro yng nghyswllt rhaglen yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn peri pryder, ond deellir hefyd bod hynny'n adlewyrchu cymhlethdod mawr uchelgais y rhaglen. Efallai na sylweddolwyd yn llawn faint o waith a chapasiti a fyddai'n ofynnol i ymgysylltu'n briodol â gweithwyr proffesiynol ar lawr gwlad ac i sicrhau newid heb ansefydlogi system sydd dan bwysau acíwt yn barod. Er hynny, mae cysur i'r Bwrdd yn natganiad Llywodraeth Cymru sy'n nodi ei bod yn benderfynol o 'wneud y gwaith yn iawn' yn hytrach na bodloni ar ei gyflawni'n unol ag amserlenni a allai fod yn afrealistig. Wedi dweud hynny, mae'n ymddangos bod y sector yn rhannu negeseuon 'aros i weld' cymysg.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod y mwyafrif llethol yn croesawu uchelgais a chysyniad creiddiol yr Adolygiad ond bod nifer sylweddol yn dal i bryderu am y modd y bydd y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau ychwanegol a ddaw yn sgil y newid yn effeithio ar Fyrddau Diogelu Rhanbarthol, oherwydd gallai eu heffaith fod yn dyngedfennol ac arwain at ansefydlogrwydd.

Mae cwestiynau nad oes modd eu hosgoi'n parhau am feichiau ychwanegol tebygol ar Gadeiryddion Byrddau, Unedau Busnes Byrddau a chyllidebau Byrddau. Yn ychwanegol at hynny y mae'r heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw digon o adolygwyr medrus mewn cronfa sydd eisoes yn gyfyngedig. Mae hynny'n hollbwysig i effeithiolrwydd Byrddau Rhanbarthol yn y dyfodol. Roedd cynigion a phrosesau y bwriedir iddynt fynd i'r afael ag ystod o faterion hollbwysig sy'n ymwneud â recriwtio, cadw, hyfforddi a safonau, ymhlith materion eraill, wrthi'n cael eu datblygu gan dîm yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ond amser a ddengys a fyddant yn ddigonol i oresgyn her sydd eisoes yn anodd ei datrys; bydd pob rhanddeiliad yn awyddus i'w gweld yn gwneud hynny.

Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi ymrwymo i chwarae ei ran o safbwynt cynorthwyo i weithredu'r Adolygiad yn llwyddiannus, lle bynnag y gall, oherwydd mae'r newidiadau a ddaw yn sgil yr Adolygiad ymhlith y rhai mwyaf arwyddocaol i weithwyr proffesiynol ym maes diogelu ers cenhedlaeth.

## Sganio'r gorwel

Rhan bwysig o weithgarwch y Bwrdd yw cadw golwg ar faterion sy'n dod i'r amlwg mewn meysydd polisi eraill, a allai fod yn arwyddocaol i ddiogelu yng Nghymru. Yr hyn sy'n berthnasol yma yw ein haelodaeth o Rwydwaith Diogelu'r Pum Gwlad (Cymru, Lloegr, Yr Alban, Iwerddon a Gogledd Iwerddon) sy'n cynllunio, yn cynnal ac yn cyflwyno rhaglen o waith polisi perthnasol drwy gydol y flwyddyn. Yn 2022-23, roedd y rhaglen honno'n cynnwys gwaith yn Iwerddon a'r Alban ar ddatblygu a chryfhau mesurau i amddiffyn rhyddid unigol y sawl sy'n destun gwarchodaeth statudol (er enghraifft, trefniadau cyfatebol o ran Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid).

# Dyletswydd Strategol 3 y Bwrdd Cenedlaethol:

## Gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (adran 132 (2)).

Mae trefniadau'r Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer rhwydweithio â'r gymuned ddiogelu broffesiynol yn ei hystyr ehangaf ar draws Cymru gyfan yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am faterion cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. O'i gymryd gyda'r wybodaeth lai moel hon, mae capasiti'r Bwrdd Cenedlaethol i gomisiynu ymchwil annibynnol ddibynadwy wedi chwarae rôl gynyddol bwysig o safbwynt amlygu meysydd lle mae angen newid rhaglenni, systemau neu bolisi, gan gynnwys y meysydd lle mae gan lywodraeth rôl hollbwysig i'w chwarae.

Yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, nododd y Bwrdd Cenedlaethol 3 neges allweddol i bawb sy'n ymwneud â diogelu. Caiff y rhain eu hailadrodd yma ochr yn ochr â'r argymhellion i Weinidogion Cymru.

### Negeseuon allweddol:

- **Lefel y galw, cymhlethdod a chapasiti** – Mae lefel yr angen a chymhlethdod yr anghenion y mae teuluoedd yn eu profi ar hyn o bryd yn fwy dwys nag erioed. Mae hynny'n parhau i greu galw newydd sylweddol am wasanaethau diogelu ataliol ac adferol yn y rhan fwyaf o ardaloedd Byrddau Rhanbarthol, os nad pob un ohonynt. Ar y llaw arall, ymddengys fod y gweithlu diogelu'n llai cydnerth nag erioed. Mae'r capasiti ychwanegol sy'n dod yn sgil y pwysau hwn yn arwain at heriau difrifol i bawb sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel uwch, ac mae hynny'n gofyn am sylw, adnoddau a chefnogaeth gyson ar y cyd ar y lefel uchaf.
- **Deall effaith ac effeithiolrwydd diogelu** – Ceir consensws cyffredinol ynghylch yr angen i gytuno ar ddull a rennir yn eang o fesur a chofnodi effaith ac effeithiolrwydd ymarfer diogelu ar draws Cymru gyfan. Mae'r Bwrdd yn annog pob asiantaeth berthnasol ym mhob rhanbarth i gymryd y cam nesaf, sef treialu prototeip o Fframwaith Perfformiad Diogelu Cymru Gyfan yn ystod 2024-25.
- Mae **diwylliant o ddysgu ym maes diogelu** yn parhau'n ganolog i arfer gorau yng Nghymru. Mae dysgu'n rhan annatod o broses Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant yng Nghymru, a dylai'r broses barhau i lywio dysgu cenedlaethol. Er hynny, mae'n hanfodol gwella effeithiolrwydd ac effaith dysgu. I wneud hynny, rydym yn annog pawb i groesawu'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n deillio o'r cyhoeddiad diweddar, sef **Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth: Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru** (Hydref 2023), a chytuno ar raglen weithredu dryloyw y mae modd ei chyflawni.

Mae'r argymhellion i'r Llywodraeth, a nodir yma, yn deillio o waith y Bwrdd yn ystod 2022-23. At hynny, roedd y Bwrdd yn teimlo ei bod yn briodol cynnwys argymhellion a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol (2023-24) sy'n deillio o fersiwn terfynol y Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant*, oherwydd mae'n bwysig achub ar y cyfle cyntaf i ddechrau lledaenu'r dysgu a hybu'r gwaith o weithredu'r argymhellion.

# Argymhellion blaenorol i Weinidogion, a'r cynnydd a wnaed hyd yma

Gyda chytundeb y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd unrhyw argymhellion a wnaed yn flaenorol gan y Bwrdd Cenedlaethol yn dal i gael eu cynnwys yn ein hadroddiadau blynyddol nes y byddant wedi'u cwblhau, fel y cytunwyd.

## Adroddiad Blynyddol 2018-2019

*Argymhelliad*

"Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ddatblygu'r gwaith o gasglu data am achosion o gam-drin pobl hŷn, a sicrhau bod y data hwnnw'n cael ei ddadansoddi'n effeithiol er mwyn deall cyffredinolrwydd achosion o gam-drin pobl hŷn a deall profiadau pobl hŷn."

*Diweddariad gan Lywodraeth Cymru –* ***CWBLHAWYD***

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o safbwynt datblygu set ddata berthnasol, a gellir ei gweld yma: statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/social-services-performance-and-improvement-framework/adults/adult-safeguarding. Yn ogystal, mae Cyfrifiad newydd, sef Cyfrifiad o Oedolion sy'n cael Gofal a Chymorth, wedi'i ddatblygu yn ystod 2022 er mwyn dechrau casglu data ar lefel unigolion am bob oedolyn sy'n cael gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Drwy fod yn gasgliad o ddata ar lefel unigolion, bydd y Cyfrifiad yn darparu dadansoddiad manwl iawn o'r gwasanaethau a ddarperir ac o'r sawl sy'n eu cael. Bydd yn llenwi llawer o'r bylchau o ran data, sy'n bodoli ar hyn o bryd, a bydd yn ei gwneud yn bosibl dadansoddi a deall yn fanwl yr oedolion sy'n cael gofal cymdeithasol.

## Adroddiad Blynyddol 2019-2020

*Argymhelliad*

"Dylai Llywodraeth Cymru bennu amserlen ar frys ar gyfer cyhoeddi'r Canllawiau Statudol ynghylch Plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru."

*Diweddariad gan Lywodraeth Cymru –* ***CWBLHAWYD***

Cafodd Canllawiau Statudol ynghylch Plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Mai 2023.

*Argymhelliad*

"Dylai Llywodraeth Cymru anrhydeddu'r ymrwymiad a wnaed i ddiwygio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ysgolion annibynnol a Chyngor y Gweithlu Addysg i gynnwys gofyniad y dylai pob aelod o staff addysgu a thimau arwain lleoliadau annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg."

*Diweddariad gan Lywodraeth Cymru –* **CWBLHAWYD**

Ers mis Mai, mae'n ofynnol i athro/athrawes mewn ysgol annibynnol neu weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

## Adroddiad Blynyddol 2020-2021

*Argymhelliad*

"Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adolygiad yn cael ei gynnal er mwyn deall effaith a gwaddol y pandemig COVID-19 o safbwynt diogelu yng Nghymru." Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022.

*Diweddariad gan Lywodraeth Cymru –* ***YN PARHAU***

Fel yr adroddwyd y llynedd, mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni'n rhan o ymchwiliad cenedlaethol ehangach o lawer, ac mae'n annhebygol y bydd yn esgor ar ganfyddiadau perthnasol am dipyn o amser.

## Adroddiad Blynyddol 2021-2022

*Argymhelliad*

**Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru (Rhaglen y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol)** "Erbyn diwedd 2022, bydd argymhellion wedi deillio o'r gwaith a gwblhawyd. Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn argymell y dylid cydweithio â'r Dirprwy Weinidog ac â rhanddeiliaid allweddol i symud yr argymhellion hynny yn eu blaen yn ystod y flwyddyn sydd i ddod."

*Argymhelliad*

"Yng ngoleuni pryderon cenedlaethol am ddiffygion yn y gweithlu, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn argymell y dylid cefnogi camau i gynnwys data am y gweithlu yn y prototeip o'r fframwaith perfformiad amlasiantaeth cenedlaethol er mwyn sicrhau gwaith monitro cyson ac ystyried atebion posibl i leihau'r effaith ar arferion diogelu."

*Diweddariad gan y Bwrdd Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru –* ***YN PARHAU***

Mae'r ddau argymhelliad wedi elwa o gael llawer o amser a chymorth ychwanegol gan y Bwrdd Cenedlaethol i ddatblygu yn ystod 2022-23, gan gydweithio'n agos â chynrychiolwyr uwch o bob Bwrdd Rhanbarthol. Mae prif ganlyniadau'r gwaith hwnnw a fframwaith perfformiad amlinellol wedi'u rhannu yn ddiweddar (ym mis Medi 2023) â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac â'r Dirprwy Weinidog sydd wedi croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru wedi cytuno i fynd ati ar y cyd i weithredu prototeip o fframwaith perfformiad yn ystod 2023-24 ac i hybu'r gwaith o gael partneriaid perthnasol i fabwysiadu fframwaith atebolrwydd 'Y 12 Elfen' yn wirfoddol.

# Argymhellion newydd i Weinidogion 2023-2024

## 1. Y rhaglen Llywio Dyfodol Diogelu yng Nghymru (Atodiad 1)

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cymeradwyo dau blatfform newydd sydd wedi'u datblygu mewn partneriaeth â chydweithwyr o Brifysgol Metropolitan Manceinion. Y ddau gynnyrch dan sylw, sy'n gysylltiedig â'i gilydd, yw'r ***Fframwaith Perfformiad Diogelu Cenedlaethol i Gymru***, a ategir gan fodel cynhwysfawr, sef y ***Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu, Y 12 Elfen***.

Wrth gymeradwyo'r modelau newydd hyn i Lywodraeth Cymru a phob asiantaeth ddiogelu, mae'r Bwrdd yn cydnabod eu bod yn fframweithiau gwirfoddol ac mai mater i bartneriaid rhanbarthol a phartneriaid eraill yw penderfynu i ba raddau y byddant yn eu mabwysiadu.Z

Er hynny, bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio'r dogfennau hyn fel sylfaen ar gyfer ailwampio ei Adroddiadau Blynyddol ei hun ar gyfer 2023-24 a 2024-25 a bydd yn gofyn am ddata pendant, sy'n dangos perfformiad, gan bob un o'r 6 Bwrdd Rhanbarthol yn ystod yr un cyfnod.

**Argymhellir** bod Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r gwaith parhaus sy'n gysylltiedig â'r prosiectau datblygu hyn, a gyflawnir ar hyn o bryd gyda chydweithwyr yn ardaloedd y 6 Bwrdd Rhanbarthol a gyda swyddogion yn Llywodraeth Cymru.

## 2. Risg, Ymateb ac Adolygu: Diogelu Amlasiantaeth: Dadansoddiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru 2022/23, Hydref 2023, Yr Athro Michelle McManus ac Emma Ball, Prifysgol Metropolitan Manceinion

Fel comisiynydd yr adroddiad thematig pwysig hwn, mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cymeradwyo ei 11 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, ac yn benodol i bob asiantaeth ac unigolyn sy'n ymwneud ag ymarfer diogelu.

**Argymhellir bod:**

**2.1 Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo canfyddiadau** yr adroddiad hwn ac yn cefnogi camau i weithredu'r 11 argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad ac a atgynhyrchir yma.

## 1. ARGYMHELLION AR GYFER YMARFERWYR A RHEOLWYR

**Ar gyfer y gweithwyr proffesiynol a'r asiantaethau sy'n gweithio ym maes diogelu, amlygodd ein hadolygiad sawl maes i'w hystyried:**

### 1.1 Hyfforddiant Partneriaeth Amlasiantaeth

Rydym yn argymell bod hyfforddiant amlasiantaeth rheolaidd yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin, yn hwyluso trafodaethau rheolaidd am safbwyntiau gwahanol asiantaethau, ac yn cryfhau rolau a disgwyliadau o ran adnabod a rheoli pryderon am ddiogelu. Gall hynny helpu i oresgyn rhwystrau i gydweithio, a galluogi ymatebion mwy rhagweithiol, os ceir ansicrwydd ynghylch penderfyniadau am drothwyau ar gyfer ymyriadau, disgwyliadau asiantaethau a chyfrifoldebau unigolion. Dylai hyfforddiant fynd i'r afael yn benodol â'r canlynol:

» Deall llais y plentyn fel profiad go iawn y plentyn o ddydd i ddydd yn ei amgylchedd, a'r ffordd orau o gofnodi llais y plentyn, ei rannu'n briodol a'i ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau a chyflwyno ymyriadau.

» Defnyddio dull gweithredu sy'n ymdrin â'r 'Teulu Cyfan', a datblygu gweithlu sy'n ddigon cymwys a hyderus i ddangos 'Chwilfrydedd Proffesiynol'. Mae angen i ymarferwyr ddeall cyfrifoldebau asiantaethau unigol a'r prosesau a'r llwybrau ar gyfer casglu gwybodaeth i adnabod risg sy'n dod i'r amlwg. Mae'n cynnwys ffactorau risg sy'n cyd-ddigwydd ac yn rhyngweithio â'i gilydd, gyda dealltwriaeth o effaith ddeinamig risgiau hanesyddol, presennol a phosibl wrth barhau i asesu niwed a risg.

» Meysydd thematig allweddol mewn astudiaethau achos o esgeulustod ac amodau gwael yn y cartref, y nodwyd yn y dadansoddiad eu bod yn ffactorau risg allweddol sy'n rhyngweithio â'i gilydd, yn ogystal ag mewn adroddiadau ehangach. Dylai hyfforddiant archwilio nid yn unig rolau a chyfrifoldebau gwahanol asiantaethau ond hefyd yr heriau go iawn wrth droi gwybodaeth a damcaniaethau'n ymarfer i nodi llwybrau ymyriadau a chymorth.

### 1.2. Chwilfrydedd Proffesiynol

Rydym yn argymell bod trafodaethau strategol yn cael eu cychwyn ar lefel awdurdodau lleol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol, sy'n canolbwyntio ar sut y caiff chwilfrydedd proffesiynol ei annog, ei hwyluso a'i wreiddio mewn ymarfer fel dull gweithredu cyffredin oddi mewn i bob asiantaeth broffesiynol berthnasol a rhyngddynt. Gellir defnyddio hyfforddiant i fynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â disgwyliadau asiantaethau a chyfyngiadau mewn sectorau a rolau. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder er mwyn archwilio sut y caiff chwilfrydedd ei wreiddio, ei gefnogi, ei adolygu a'i fonitro i sicrhau ei fod mor effeithiol ag sy'n bosibl a'i fod yn parhau felly.

## 1. ARGYMHELLION AR GYFER YMARFERWYR A RHEOLWYR

### 1.3 Blaenoriaethu Cymorth a Goruchwyliaeth ar gyfer pob ymarferydd:

» Dylai rheolwyr sicrhau eglurder ynghylch disgwyliadau o ran goruchwyliaeth ffurfiol ym maes diogelu ar gyfer ymarferwyr perthnasol. Dylai hynny gynnwys manylion am amlder, hyd ac amcanion goruchwyliaeth, a dangos dealltwriaeth o sut y bydd hynny'n cael ei adolygu a'i fonitro yn fewnol.

» Rhaid i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol gael sicrwydd bod goruchwyliaeth reolaidd ac effeithiol yn digwydd ar draws sectorau, a allai ei gwneud yn ofynnol, er enghraifft, i asiantaethau perthnasol gyflwyno adroddiadau i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Bydd y gwaith monitro hwn yn rhoi hyder bod goruchwyliaeth ar draws partneriaid diogelu yn waith pwrpasol a dylanwadol sydd o ansawdd digonol. At hynny, dylai goruchwyliaeth geisio cynnwys y ffordd orau o hwyluso cydweithio â phartneriaid allweddol.

» Yn ogystal, dylai rheolwyr geisio darparu ac adolygu cyfleoedd anffurfiol i ymarferwyr gael mynediad i gymorth ym maes diogelu.

## 2. ARGYMHELLION AR GYFER AWDURDODAU A BYRDDAU

**Ar gyfer y sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni gwaith diogelu, amlygodd ein hadolygiad sawl maes i fynd i'r afael â nhw:**

### 2.1. Ansicrwydd ynghylch Trothwyau, a Gwella Penderfyniadau, Cytundeb a Her

Rydym yn cydnabod bod yna ddadlau am y term 'trothwyau', ond yn yr adolygiad hwn defnyddir y term i ddisgrifio proses gwneud penderfyniadau er mwyn penderfynu ar y camau nesaf a chael mynediad i ymateb/ymyriad gan wasanaeth ar adeg benodol. Nododd yr adolygiad hwn yr angen am y canlynol:

» Trothwyau Amlasiantaeth – dylid cytuno'n rhanbarthol ar arweiniad, er mwyn egluro disgwyliadau a chael pwynt cyfeirio ar gyfer ymarferwyr pan fyddant yn cyflwyno atgyfeiriadau diogelu. Dylid mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder, sy'n aml yn destun amwysedd a deongliadau gwahanol, er enghraifft esgeulustod. Dylai hynny hefyd gynnwys llwybrau clir ar gyfer symud pryderon yn eu blaen a herio penderfyniadau, os bydd pryder am ddiogelu'n parhau ar ôl i benderfyniad ynghylch trothwy gael ei wneud.

» Dylai polisïau a phrotocolau lleol ynghylch rheoli pryderon newydd neu rai sy'n gwaethygu, ac ynghylch datrys gwahaniaethau proffesiynol, ddarparu llwybrau a phrosesau tryloyw a hygyrch. Dylid cyfeirio at hynny yn yr arweiniad ynghylch Trothwyau Amlasiantaeth a'i fonitro yn rhan o adolygiadau mewnol.

### 2.2. Gweithio tuag at gofnod iechyd unedig

Mae'r adolygiad hwn wedi amlygu natur allweddol, ond cymhleth, asiantaethau'r sector Iechyd ym maes diogelu. Cydnabyddir bod y dasg yn un heriol, ond mae angen gwneud gwaith ar frys i hybu ymhellach y gwaith o hwyluso cael cofnod iechyd unedig. Mae hynny'n golygu'r canlynol:

» Mae dod â gwybodaeth o ystod o wasanaethau Iechyd, megis meddygfeydd meddygon teulu, gwasanaethau bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd yn arbennig o hanfodol er mwyn gallu canolbwyntio ar y teulu cyfan wrth nodi pryderon am ddiogelu sy'n dod i'r amlwg. Yn absenoldeb systemau TG cyffredin, rhaid ystyried datblygu dulliau sy'n ei gwneud yn bosibl rhannu gwybodaeth arferol yn brydlon ac sy'n hybu datblygu cydberthnasau rhwng yr ymarferwyr hyn.

» I fynd i'r afael â chymhlethdod y GIG a'i is-adrannau rydym yn argymell datblygu gyda rhanddeiliaid Weithgor Diogelu ym maes Iechyd, a arweinir yn genedlaethol, er mwyn ystyried y rhwystrau a'r cyfleoedd i gydweithio ac er mwyn rhannu gwybodaeth yn effeithiol ynglŷn â phryderon lefel isel am ddiogelu a phryderon am ddiogelu sy'n dod i'r amlwg.

» Dylai unrhyw weithgorau geisio cysylltu ag Adran Addysg Llywodraeth y DU ynghylch ei gwaith peilot i wella dulliau o rannu gwybodaeth mewn modd amlasiantaeth gan ddefnyddio 'Dynodydd Plentyn Cyson'.

### 2.3. Mesur Effeithiolrwydd mewn Trefniadau Diogelu

Mae angen tystiolaeth gliriach gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol/awdurdodau lleol i ddangos effeithiolrwydd eu trefniadau diogelu amlasiantaeth.

» Anogir Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac awdurdodau lleol i fabwysiadu'r Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu: Y 12 Elfen (Ball a McManus, 2023) fel pecyn cymorth. Mae'r model 12 Elfen yn nodi'r 12 elfen ar draws "Ymarferwyr ac Asiantaethau" yn ogystal â "Strwythurau a Phrosesau". Bydd hynny o gymorth i nodi heriau a llywio gwaith sydd wedi'i dargedu yn fwy helaeth, ac o gymorth hefyd i nodi arfer gorau.

» Mae angen i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol wella tryloywder wrth gyflawni argymhellion Adolygiadau Ymarfer Plant. Dylai pob Adolygiad o'r fath a gwblheir gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol fod yn destun adolygiad blynyddol mewnol (e.e. yn rhan o archwiliadau blynyddol/adroddiadau diogelu corfforaethol). O gofio bod pob Adolygiad Ymarfer Plant yn darparu rhestr o argymhellion a chamau gweithredu gofynnol, dylai'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol geisio crynhoi'r holl argymhellion a'r holl gamau gweithredu sy'n ofynnol i wella ymatebion diogelu. Dylai'r broses hon geisio nodi themâu cyffredin, rhannu gwersi a deall yn well y gwelliannau sy'n ofynnol ar draws y rhanbarth.

## 3. ARGYMHELLION AR GYFER LLUNWYR POLISI

**Ar gyfer yr unigolion sy'n gyfrifol am lywio'r gwaith o ddatblygu'n barhaus ein dull o ddiogelu, amlygodd ein hadolygiad sawl maes i fynd i'r afael â nhw:**

### 3.1. Sicrhau Ansawdd Adolygiadau Ymarfer Plant

Gwnaeth yr adroddiad llawn ddadansoddi'r Adolygiadau Ymarfer Plant eu hunain yn fanwl, gan gynnwys ansawdd yr adroddiad a'r graddau yr oedd yn glynu wrth y prosesau sydd mewn arweiniad a deddfwriaeth. Mae'r argymhellion yn nodi fel a ganlyn:

- Dylai Adolygiadau Ymarfer Plant gwblhau'r agwedd ar y broses adolygu sy'n ymwneud â 'thasgau craidd', fel y diffinnir gan y cylch gorchwyl. Rydym wedi tynnu sylw at y rhestr lawn o argymhellion a'r templed a ddarperir yn ein hadroddiad llawn. Dylai'r templed hwn gael ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu'n gyson mewn Adolygiadau Ymarfer Plant.

- Dylid adolygu'r llinellau amser o'r adeg y caiff achos ei gyfeirio at yr is-grŵp i'r adeg y caiff yr adroddiad ei gwblhau. Roedd llawer o Adolygiadau Ymarfer Plant yn cymryd dros ddwywaith y 6 mis a awgrymir. Rhaid rheoli disgwyliadau a chydnabod yr heriau ar gyfer prosesau adolygu yn y dyfodol.

- Wrth symud tuag at broses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yng Nghymru, dylai'r argymhellion hyn gael eu hystyried gan y Grŵp Llywio Cenedlaethol er mwyn gwella ansawdd pob adolygiad amlasiantaeth a sicrhau eu bod yn arwain at gymaint o ddysgu ag sy'n bosibl.

**3.2. Datblygu Pyrth wedi'u Hawtomeiddio ar gyfer Atgyfeiriadau/Adroddiadau Diogelu**

O gofio'r cymhlethdodau a nodwyd mewn asiantaethau a sefydliadau diogelu sy'n amgylchynu'r uned deuluol (gweler y Model o Gysylltiadau, Ystyriaethau a Chymhlethdodau Amlasiantaeth), ochr yn ochr â'r amryw Lwybrau Diogelu posibl (gweler Atodiad 4 yr adroddiad llawn), dylai gwaith blaenoriaethu ganolbwyntio ar greu pyrth wedi'u hawtomeiddio ar gyfer cael pryderon gweithwyr proffesiynol am ddiogelu, adolygu'r pryderon hynny a'u rheoli. Byddai hynny'n galluogi mwy o gyfleoedd i rannu pryderon a gwybodaeth lai moel yn effeithiol.

» Byddai cael hysbysiadau am wybodaeth sydd wedi dod i law, ochr yn ochr â chyfeirnodau atgyfeirio unigryw, yn annog atgyfeirwyr i fynd ar drywydd unrhyw benderfyniadau ac yn annog adborth. Byddai hynny'n gwella'r gallu i chwilio am wybodaeth ac i gasglu gwybodaeth am blentyn, am y teulu ehangach ac am y cartref er mwyn creu darlun cyflawn o'r pryderon a fynegwyd.

» Rydym yn nodi y byddai angen adnoddau ychwanegol i weithredu hynny, ac y byddai angen i hynny weithio yn y systemau a'r llwybrau sy'n bodoli eisoes, megis Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth/Canolfannau Diogelu a phrosesau drws ffrynt y system Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy.

**3.3. Adolygu'r Protocol 'Heb Ei Hebrwng' er mwyn rhoi'r polisi hwn ar waith gymaint ag y bo modd**

Nododd llawer o Adolygiadau Ymarfer Plant fod angen i'r Protocol 'Heb Ei Hebrwng' gael ei roi ar waith yn fwy helaeth, yn enwedig yng nghyswllt apwyntiadau iechyd a gollir.

» Mae angen datblygu protocol 'Heb Ei Hebrwng' cenedlaethol ar gyfer pob asiantaeth, sy'n berthnasol i bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Dylai ddarparu llwybr gweithredu clir, gan nodi rolau a chyfrifoldebau pob asiantaeth a gaiff ei hysbysu am wybodaeth, os oes angen gweithredu ar ei sail.

### 3.4. Cofnodi ac Arweiniad ynghylch esgeulustod ac amodau'r cartref

Nododd sawl Adolygiad Ymarfer Plant broblemau o ran ansicrwydd ymarferwyr ynghylch pa fanylion yr oedd angen adrodd amdanynt i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu'n gywir. Fel yn achos yr argymhellion eraill sydd yn yr adolygiad hwn, mae angen i'r effaith ar holl aelodau'r teulu gael ei hystyried yn yr asesiadau hyn ac wrth gofnodi.

- Dylai cofnodion diogelu nodi'r pryderon amrywiol, cronnol a pharhaus a fynegwyd, pa gamau gweithredu a gymerwyd, a hirhoedledd unrhyw newidiadau a wnaed. Byddai hynny'n ei gwneud yn bosibl rhoi arweiniad cyfredol ar waith yn fwy helaeth, megis Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan: Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogelu Plant Rhag eu Hesgeuluso (2021).

- Dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol geisio adolygu sut y caiff esgeulustod a phryderon am amodau'r cartref eu cofnodi, a phwy sy'n perchenogi'r pryderon hynny ac yn cymryd cyfrifoldeb amdanynt, gan ddefnyddio eu gallu i echdynnu gwybodaeth sy'n nodi diffyg cynnydd cynyddol a/neu barhaus gan asiantaethau perthnasol.

- Dylai awdurdodau geisio datblygu seilwaith amlasiantaeth yn genedlaethol, er mwyn hybu gwaith rhannu gwybodaeth lai moel am ddiogelu ac er mwyn meithrin dealltwriaeth fwy cywir o'r gwahanol fathau o niwed a gofnodir.

- At hynny, gallai defnydd ehangach a mwy cyson o'r system Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy gynnig ffordd o ddatblygu hynny.

### 3.5. Gweithredu'r 12 Elfen fel Fframwaith Arweiniad a Phecyn Cymorth Archwilio

Rhaid ystyried sut y gall asiantaethau hwyluso cydweithredu a chydweithio, a meithrin cydgyfrifoldeb am ddiogelu. Cafodd y Model Cydgyfrifoldeb am Ddiogelu: Y 12 Elfen (Ball a McManus, 2023) ei ddatblygu'n rhan o'r Gwerthusiad Cenedlaethol, Llywio Dyfodol Trefniadau Diogelu Amlasiantaeth yng Nghymru (McManus et al., 2022).

- Gwnaethom argymell gweithredu'r model hwn i ategu Fframweithiau Arweiniad presennol a Phecynnau Cymorth Archwilio ar draws Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn helpu i ddangos unrhyw fesurau a fabwysiadwyd yn lleol i hwyluso trefniadau diogelu amlasiantaeth, eu cydlynu a dangos tystiolaeth eu bod yn cael eu gweithredu.

- Byddai gweithredu fframwaith y 12 Elfen yn golygu bod angen i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol/awdurdodau lleol ymateb i bob un o'r 12 Elfen yn eu tro i ddangos beth sydd wedi'i roi ar waith neu beth y bwriedir ei weithredu, er mwyn ymdrin â'r maes hwn. Ceir opsiwn hefyd i raddio'r cynnydd a wnaed o ran pob un o'r 12 Elfen, y gellir ei adolygu'n flynyddol a'i fonitro.

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

## Dysgwch fwy

www.bwrdddiogelu.cymru

@NISBwales

safeguardingwales